PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 12 TACHWEDD 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Hugh Thomas, Cunnah, Howells, Lister, McKerlich a/ac Singh |

42 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Ian Arundale a'r Cynghorydd Joel Williams.

43 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

44 : COFNODION

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2016 fel gwir gofnod yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Ychwanegu David Price a Gavin McArthur at restr y rhai oedd yn bresennol.

Tudalen 5, pwynt bwled cyntaf.

> Holodd aelod p'un ai a oedd cysylltiad rhwng **canlyniadau archwilio mewnol anfoddhaol** a chwblhau hyfforddiant gorfodol a phresenoldeb yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei bod yn amlwg bod cysylltiad, ac y bydd hyfforddiant a phresenoldeb gorfodol yn parhau i gael ei fonitro trwy'r Corff Llywodraethu perthnasol.

Tudalen 8, y trydydd paragraff

> Gofynnodd yr aelodau **p'un ai a fyddai'r cyngor yn cael ei wahardd ar unwaith** rhag buddsoddi gyda benthyciwr pe bai ei sgôr yn cael ei ostwng i lefel sydd y tu hwnt i'r polisi. **Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol mai dyna fyddai'r achos** a bod y rhestr fenthyca yn cael ei phennu ar ddechrau'r flwyddyn, gyda'r cyfraddau'n cael eu monitro'n ddyddiol, a'r holl fuddsoddiadau newydd yn seiliedig ar y cyfraddau cyfredol.

Busnes y Cadeirydd

45 : RHWYDWAITH CADEIRYDDION Y PWYLLGORAU ARCHWILIO (DIWEDDARIAD LLAFAR)

Darparodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar o ddigwyddiad Rhwydwaith Cadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2019. Dywedodd y Cadeirydd fod nifer dda yn bresennol yn y digwyddiad. Cyflwynodd cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a CIPFA eitemau ar yr agenda ar lywodraethu da a rheoli risg yn y drefn honno. Cymerodd y mynychwyr ran hefyd mewn gweithdy a oedd yn cynnwys ymgysylltu rhwng cymheiriaid ar ddylanwad y Pwyllgor Archwilio. Hysbyswyd yr

Aelodau bod y digwyddiad wedi'i noddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r bwriad yw y byddai digwyddiadau rhwydweithio'n cael eu cynnal hyd at ddwywaith y flwyddyn.

Cyfeiriodd y Cadeirydd yn arbennig at y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sydd ar ddod, y cyfeiriwyd ato yn y digwyddiad, a'r angen i'r Pwyllgor Archwilio gael ei friffio'n llawn cyn gwneud unrhyw newidiadau i'w rôl. Dywedodd y Rheolwr Archwilio y bydd gwybodaeth a briffiau pellach yn cael eu darparu, ac y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cael gwahoddiad i fynychu'r Rhwydwaith Cadeiryddion nesaf ym mis Gorffennaf 2020 i roi mwy o wybodaeth i ni, gan gynnwys yr amserlenni posibl, a'r hyn y gallai ei olygu yn ymarferol. Caiff y Pwyllgor Archwilio ei ddiweddaru, fel y bo'n briodol.

46 : SARAH MCGILL - DIWEDDARIAD AR YR AMGYLCHEDD RHEOLI MEWNOL

Croesawodd y Cadeirydd Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, i'r cyfarfod a ddarparodd adroddiad ar yr amgylchedd rheoli o fewn meysydd gwasanaeth Tai a Chymunedau, Perfformiad a Phartneriaethau a Strydlun. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gwasanaeth stryd, ers mis Mehefin 2019, wedi'i ddyrannu i Gyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau ar sail dros dro er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni agenda Uchelgais Prifddinas y Cyngor. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol amlinelliad o sefyllfa'r Gyfarwyddiaeth o ran trefniadau rheoli risg, datganiadau sicrwydd i uwch reolwyr, a'r ymateb i argymhellion yr archwilwyr mewnol.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr Aelodau fod y Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi cymryd cyfrifoldeb am Strydlun yn ddiweddar ar adeg pan oedd nifer o faterion proffil uchel yn parhau. Gofynnodd yr Aelodau a oedd lefel briodol o reolaeth o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â'r materion hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol eu bod wedi cymryd y cyfrifoldeb am y gwasanaeth ar sail dros dro. Roedd angen cysoni'r gwasanaeth â gwasanaethau eraill yn y cyngor gan fod y gwasanaeth wedi'i ynysu yn y gorffennol ac ni ellir datrys y materion y cyfeiriwyd atynt mewn modd ynysig. Fodd bynnag, roedd dull clir o ddeall y gwasanaeth, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod y strwythur rheoli cywir yn ei le. Mae Rheolwr Gweithredol newydd wedi'i benodi a bydd yn dechrau ar ei waith ym mis Rhagfyr.

- O ran gwastraff masnachol, nododd Aelod fod y Cyngor yn casglu 30% o'r gwastraff masnachol yn y ddinas, ac eto dyma'r unig ddarparwr, sy'n ailgylchu'r hyn y mae'n ei gasglu. Mynegodd Aelod siom, er bod trigolion yn cael eu hannog i ailgylchu, nad yw'r un safonau'n cael eu defnyddio ar gyfer busnesau. Roedd yr Aelod o'r farn nad yw'r busnesau hynny nad ydynt yn ailgylchu, yn cyfrif tuag at dargedau ailgylchu ac felly gallai fod cymhelliant gwrthnysig i beidio ag ailgylchu, a gofynnodd sut y gellid mynd i'r afael â hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oedd unrhyw ofynion cyfreithiol i fusnesau ailgylchu. Felly, mae’r busnesau hynny sy'n dymuno ailgylchu’n gwerthfawrogi’r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ailgylchu. Pe bai'r gyfraith

yn cael ei newid, byddai'r Cyngor mewn sefyllfa ardderchog o ran y seilwaith sydd eisoes ar gael i fodloni gofynion.

- Gofynnodd Aelod a oedd y gwasanaeth wedi bod yn agosach at fynd i'r afael â meysydd o berfformiad gwael o ran ailgylchu, gan awgrymu y gwyddys bod casgliadau wedi achosi problemau, wrth gael eu gwahanu mewn 8 neu 9 o brosesau ar wahân. Awgrymodd yr Aelodau fod angen i'r gwasanaeth fod yn fwy dychmygus, fel gofyn i elusennau gymryd papur newydd o'r ffrwd wastraff. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y rhagwelir y bydd y ddadl 'ail-ddefnyddio' yn dod i'r amlwg a bod y tunelli sy'n cael eu casglu'n gostwng gan fod llai o ddeunydd pacio. Roedd yn allweddol er mwyn deall y cyfleoedd a gyflwynir a gwneud y gwasanaeth yn gynaliadwy; roedd angen deall y manylion ynglŷn â'r materion hyn.

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor Archwilio’n nodi cynnwys yr adroddiad.

Materion Gweithredol

47 : JANE THOMAS - POLISI DILYSU SEILIEDIG AR RISG - ASESIAD BUDD-DAL TAI A’R DRETH GYNGOR

Gwahoddodd y Cadeirydd Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Tai a Chymunedau, i roi cyflwyniad ar ddull gwirio seiliedig ar risg i ddilysu ceisiadau am fudd-dal tai a gostyngiad yn y dreth gyngor. Ystyriwyd bod y dull presennol yn anghyfleus i'r cwsmer ac yn gostus i'w weinyddu. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r broses ddilysu yn seiliedig ar risg a'i manteision.

Rhoddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ganllawiau i awdurdodau lleol a oedd am fabwysiadu'r model dilysu ar sail risg, a oedd yn cynnwys gofyniad am bolisi Dilysu yn Seiliedig ar Risg. Mae'r canllawiau'n nodi bod yn rhaid i'r polisi ganiatáu i Aelodau, swyddogion ac archwilwyr allanol fod yn glir ynghylch y lefelau gwirio angenrheidiol. Mae'n rhaid adolygu'r polisi bob blwyddyn hefyd (ond ni ddylid ei newid yn ystod y flwyddyn). Roedd y Pwyllgor Archwilio yn fodlon bod y polisi yn bodloni canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau. Er bod y Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd na ddefnyddir nodweddion gwarchodedig at ddibenion Dilysu yn Seiliedig ar Risg, cytunodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y byddent yn diwygio’r Polisi i gynnwys gofyniad i fonitro effaith gweithredu, ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

PENDERFYNWYD -

(1) Y câi cynnwys yr adroddiad ei nodi;

(2) Y dylid diwygio’r Polisi Dilysu yn Seiliedig ar Risg i gynnwys gofyniad i fonitro effaith gweithredu, ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig

48 : DIWEDDARIAD AR GYLLID GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ddiweddariad cyllid ar lafar. Hysbyswyd yr Aelodau bod y Cyngor wedi cymeradwyo datganiad cyfrifon 2018/19 ar 12 Medi 2019.

Hysbyswyd yr Aelodau bod adroddiad monitro mis 4 wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ar 26 Medi 2019 a oedd yn rhagamcanu gorwariant cyffredinol o £325,000. Gofynnwyd i'r

Aelodau nodi bod y cyfarwyddiaethau wedi'u gorwario tua £7 miliwn, yn fwyaf nodedig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (£4.2 miliwn) a Chynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd (£2.5 miliwn). Cafodd y gorwariant cyfarwyddiaeth hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan danwariant rhagamcanol mewn cyfarwyddiaethau eraill, a chan y gyllideb wrth gefn gyffredinol gwerth £3.0 miliwn a ddarparwyd fel rhan o gyllideb 2019/20. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd bod y sefyllfa gyfalaf ym mis 4 yn rhagamcanu alldro o £72 miliwn a llithriant o £30 miliwn. Bydd adroddiad monitro mis 6 yn cael ei adrodd cyn hir a bydd yn cynnwys lliniaru.

Hysbyswyd yr Aelodau y rhagwelir y setliad dros dro ar gyfer 2020/21 ar 16 Rhagfyr 2019, ac y disgwylir y setliad terfynol ym mis Chwefror. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi nodi bwlch ariannu o £25 miliwn ar gyfer 2020/21. Hysbyswyd yr Aelodau am adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o gydnerthedd ariannol ar draws pob awdurdod.

Gwahoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol sylwadau gan y Pwyllgor.

- Gofynnodd Aelod a fyddai'r oedi cyn i ffigwr terfynol y setliad gael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau. Hysbyswyd y Pwyllgor bod gofyniad statudol i bennu'r Dreth Gyngor erbyn 11 Mawrth 2020. Gobeithiwyd na fyddai llawer o wahaniaeth rhwng y ffigyrau dros dro a'r setliad terfynol, ond bydd amserlenni'n dynn ac nid yw oedi'r cyfle i ymgynghori tan gyfnod y gwyliau yn ddelfrydol.

49 : RHEOLI RISGIAU CORFFORAETHOL (CANOL BLWYDDYN)

Darparodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Rheoli Risg Arweiniol yr Adroddiad Rheoli Risg Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2019/20. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r 224 o risgiau a gofnodwyd o Gofrestrau Risg Cyfarwyddiaethau, a'r holl newidiadau i risgiau sy'n cynyddu a risgiau corfforaethol fel y'u hystyriwyd gan yr Uwch Dîm Rheoli ar 22 Hydref 2019.

Gofynnodd un Aelod pam nad oedd unrhyw sôn am effaith bosibl adeiladau ysgol nad oeddent yn addas at y diben yn sgôr risg Cynllun Trefniadaeth Ysgolion. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y risg benodol yn ymwneud â methu â chyflawni'r rhaglen Cynllun Trefniadaeth Ysgolion, yn hytrach na chyflwr yr ysgol. Mae'r rhaglen yn cynnwys gwella asedau ysgol, yn amodol ar achosion busnes terfynol, mewn ysgolion Band B dros y pum mlynedd nesaf. Mae arolygon cyflwr wedi'u cwblhau ym mhob ysgol yn y ddinas. Mae tua 10 ysgol wedi'u nodi lle mae angen gwelliannau. Mae arolygon wedi cael eu graddio o ran angen a byddant hefyd yn llywio'r rhaglen adnewyddu asedau. Nid yw'r ffigwr ôl-groniad a ddyfynnwyd yn aml yn cyfrif am waith y rhaglen Cynllun Trefniadaeth Ysgolion.

Gofynnodd Aelod a oedd y rhestr lawn o ddadfeiliadau wedi'i chyhoeddi'n gyhoeddus. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y rhestr wedi cael ei rhannu gyda'r ysgolion unigol dan sylw a dywedodd y byddai'n rhoi adborth ar y sylwadau ar ddadfeiliadau ystadau ysgolion, a chyhoeddi'r wybodaeth hon, i'r Cyfarwyddwr Addysg.

Gofynnodd un aelod a fu lefel dda o ymgysylltu ar draws y cyfarwyddiaethau. Dywedodd swyddogion fod ymgysylltu â Phencampwyr Risg ar draws yr holl

gyfarwyddiaethau hyd yma wedi bod yn gadarnhaol.  Roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn bod ymgysylltu da yn allweddol i wella ymgysylltu a rhoi mwy o ddealltwriaeth.

PENDERFYNWYD -

(1) Y dylid nodi’r adroddiad;

(2) Y Pennaeth Cyllid i roi adborth am sylwadau ar ddadfeiliadau ar ystadau ysgolion, a chyhoeddi'r wybodaeth hon, i'r Cyfarwyddwr Addysg.

Cyllid
50 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD GWEITHGARWCH/ADRODDIAD SAC

Cafodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Archwilio Perfformiad.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

Llywodraethiant a Rheoli Risg
51 : ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN

Cyflwynodd Pennaeth Cyllid a Rheolwr Gweithredol, Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2019-2020.  Roedd yr adroddiad yn manylu ar weithgareddau Rheoli’r Trysorlys y Cyngor ers 1 Ebrill 2019 ac yn darparu datganiad sefyllfa ar 30 Medi 2019.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y siartiau buddsoddi a nodi bod lefel yr amlygiad i HSBC yn uwch na'r terfyn a ganiateir.   Cytunodd y Rheolwr Gweithredol i egluro'r sefyllfa ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

Swyddfa Archwilio Cymru
52 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM YMCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio adroddiad Cynnydd y Tîm Ymchwilio Archwilio, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y tîm ar 31 Hydref 2019, gan gynnwys cynnydd wrth gyflawni mentrau ymwybyddiaeth o dwyll.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi’r adroddiad.

53 : GOHEBIAETH GRAFFU

Ni dderbyniwyd unrhyw Ohebiaeth Graffu.

Rheolaeth Trysorlys
54 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Nodwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor.

55 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

Archwilio Mewnol

56 : IAN ARUNDALE - CAIS AM ABSENOLDEB

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn i'r Aelodau ystyried cais gan Ian Arundale, Cadeirydd, am gyfnod o absenoldeb o hyd at un flwyddyn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cadeirydd wedi gofyn yn ffurfiol, ar 26 Hydref 2019, am ganiatâd i fod yn absennol, a nodwyd y rhesymau yn yr adroddiad. Mae'r Cyngor yn pennu maint ac aelodaeth y Pwyllgor Archwilio ac felly mae ganddo'r awdurdod i gymeradwyo cais am absenoldeb. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio ystyried y cais a phenderfynu a ddylid gwneud argymhelliad i'w gymeradwyo yn y Cyngor ar 28 Tachwedd 2019.

PENDERFYNWYD -

(1) Nododd y Pwyllgor Archwilio gais y Cadeirydd am ganiatâd i fod yn absennol am hyd at 1 flwyddyn;

(2) Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio y dylai'r Cyngor gymeradwyo cais y Cadeirydd.

57 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod mewn perthynas â'r eitem ganlynol yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) gan fod yr eitem yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â’r disgrifiad a geir ym mharagraffau 14 a 21 o Rannau 4 a 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Awdurdod Lleol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

58 : NEGESEUON ALLWEDDOL - ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL AC ADRODDIAD ARCHWILIO LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL

Derbyniwyd Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Gwahoddwyd Sara-Jane Byrne o Swyddfa Archwilio Cymru i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Uwch Reolwyr y Cyngor yn ystyried ac yn cytuno ar yr adroddiad drafft a gofynnwyd iddynt nodi crynodeb o'r gweithgarwch rheoleiddio a oedd wedi digwydd ers yr adroddiad diwethaf. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn bodloni ei ofynion o ran gwelliannau statudol. Fodd bynnag, erys heriau, yn enwedig o ran y lefel o arbedion a fydd yn ofynnol wrth symud ymlaen.

Cafodd y Pwyllgor hefyd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru o'r enw 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad 'Datblygu a Lansio Gweledigaeth Newydd ar gyfer Trafnidiaeth ac Aer glân ar gyfer y Ddinas'. Rhoddodd Jeff Brown o Swyddfa Archwilio Cymru grynodeb o'r adroddiad a'i ganfyddiadau.

Ar ôl trafod, roedd yr aelodau o'r farn y dylent gael cyfrif rheoli canfyddiadau'r adroddiad ar gyfer adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch tracio argymhellion SAC, y byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau perthnasol ar eu cyfer, sydd i'w ystyried ar gyfer eitemau'r Pwyllgor yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD -

(1) Y dylid nodi'r adroddiad;

(2) Y Rheolwr Archwilio i ofyn, yn amodol ar amseriad yr adroddiad a'r cyfarfod, bod ymatebion y rheolwyr yn cyd-fynd â chyflwyniad asesiadau SAC mewn cyfarfodydd Pwyllgor yn y dyfodol.

59 : ADRODDIAD PERFFORMIAD

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Rheolwr Gweithredol, Cyfalaf, Corfforaethol a Thrysorlys adroddiad yn darparu gwybodaeth am berfformiad a datganiad sefyllfa ar Reoli'r Trysorlys ar 30 Medi 2019.

Yn dilyn ceisiadau blaenorol gan y Pwyllgor, roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth i gefnogi effeithiolrwydd neu arall swyddogaeth y Trysorlys. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar ffurf:

- Gwerthusiad gan arbenigwr allanol ar Reoli'r Trysorlys ar Lywodraethu a chydymffurfio â'r codau ymarfer.
- Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad archwilio mewnol cyfnodol o swyddogaethau'r Trysorlys sy'n canolbwyntio'n bennaf ar reolaethau mewnol
- Gwybodaeth feincnodi Rheoli'r Trysorlys

At hynny, gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ar 9 Hydref 2019, wedi newid eu polisi benthyca ar unwaith drwy gynyddu'r gyfradd llog y gallai awdurdodau lleol ei benthyg. Bydd effaith y newid hwn ar y Cyngor yn cael ei fonitro'n ofalus.

Llongyfarchodd y Pwyllgor y Rheolwr Gweithredol am y canfyddiadau rhagorol yn yr adroddiad allanol annibynnol. Gwnaeth yr Aelodau sicrwydd o'r canfyddiadau. Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddog wneud sylwadau ar y ddau argymhelliad yn yr adroddiad a gofyn pryd fyddai'r Pwyllgor yn cael ymateb y rheolwyr. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai'r Pwyllgor dderbyn cynllun gweithredu swyddogaeth y Trysorlys ar ôl i'r adroddiad gael ei ystyried. Dywedodd y Pennaeth Cyllid, er bod heriau'n parhau, bod y posibilrwydd o ddod ag adnoddau ychwanegol i'r tîm a chryfhau'r swyddogaeth yn cael ei ystyried. Rhoddwyd addewid y byddai'r cynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at baragraff 2.5 yn yr adroddiad allanol – Defnydd Statws Credyd. Gofynnodd Aelod a oedd y sylwadau yn y paragraff yn cael eu hadlewyrchu mewn polisi. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y polisi yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd.

Gofynnwyd i'r swyddog hefyd roi sylwadau ar y rhestr o ddiffyg cydymffurfio yn yr adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y diffyg cydymffurfio a restrwyd naill ai'n ddyheadol neu'n cael sylw ar hyn o bryd ac y byddai'r Cynllun Gweithredu'n rhoi sylw iddynt.

PENDERFYNWYD -

(1) Y dylid nodi'r adroddiad;

(2) Y Pennaeth Cyllid i ddarparu cynllun gweithredu a sylwadau gan reolwyr mewn ymateb i'r adroddiad allanol ar Reoli'r Trysorlys.

60 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith yr Archwiliad Mewnol ar 31 Hydref 2019. Rhoddwyd gwybodaeth am berfformiad a meincnodi i'r Aelodau, a gofynnwyd iddynt nodi'r canfyddiadau allweddol a nodwyd ym mharagraffau 11 i 15 o'r adroddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod un adroddiad archwilio drafft, yn ystod y cyfnod adrodd, wedi'i gyhoeddi gyda barn archwilio 'anfoddhaol', mewn perthynas â gweithrediadau tipio anghyfreithlon, y bydd y Pwyllgor yn cael Crynodeb Gweithredol amdanynt yn ei gyfarfod nesaf. Rhoddwyd trosolwg hefyd o ganfyddiadau'r adroddiadau lle'r oedd barn archwilio 'annigonol ac angen gwelliant mawr' wedi'i ddyrannu.

Cyfeiriodd Aelod at y tabl o argymhellion a wnaed a'r argymhellion y cytunwyd arnynt ym mharagraff 3.1 yr adroddiad a holodd sut y creffir ar y rhai nad ydynt wedi'u derbyn. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod yr argymhellion ym mhob archwiliad terfynol wedi'u derbyn dros y cyfnod adrodd. Dywedodd y Rheolwr Archwilio y câi'r argymhellion nas cytunwyd eu hamlygu mewn adroddiadau i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

61 : CAMAU SY'N WEDDILL

Nodwyd y gweithredoedd oedd heb eu cyflawni. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod llythyr wedi'i ddosbarthu ynghylch y camau sydd heb eu cymryd.

62 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Ionawr 2019.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm